



# Ysgol Tyle'r Ynn

## Polisi Gwaith Cartref

### **Rhagair**

Nae'r polisi hwn yn cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref yn Ysgol Tyle'r Ynn. Gobeithir, trwy gydweithrediad rhieni, y bydd y gwaith cartref yn helpu i godi safonau addysgol a chyfoethogi'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn rhoi blas i rieni o'r gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn y dosbarth.

### **Yr angen am waith cartref**

- Mae gwaith cartref yn fodd o sicrhau fod y plant yn meithrin hyder i weithio y tu allan i sefyllfa'r ystafell ddosbarth/ysgol.
- Yn aml atgyfnerthir y gwaith dosbarth gan y gwaith cartref.
- Mae'n gyfle i rieni gymeryd rhan weithredol yn addysg y plant.
- Mae'n fodd o ehangu cwricwlwm y plant.
- 

### **Gosod gwaith cartref**

Bydd diwrnod gosod gwaith cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth yn ôl barn yr athro a digwyddiadau'r wythnos.

### **Dychwelyd gwaith cartref**

Bydd diwrnod pendodl yn cael ei osod ar gyfer dychwelyd y gwaith cartref a disgwylir i bob plentyn gadw at y diwrnod hwn. Mae'r athrawon yn gofalu bod digon o amser yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith.

### **Ymateb i waith cartref**

Mae ymateb yr athrawon i waith cartref yn amrywio yn ôl y math o waith a osodir, e.e  
Prawf sillafu, tablau ayyb  
Marcio gwaith ysgrifenedig neu fathemateg  
Trafodaeth ar y wybodaeth a gasglwyd

### **Darllen**

Y gwaith cartref pwysicaf ym marn yr ysgol yw ymarfer darllen adref. Bydd disgyblion o'r Derbyn i fyny yn cael llyfrau darllen i fynd adref. Caiff pob plentyn cofnod darllen i fynd gyda'r llyfrau ac mae rhein yn cynnig cyfle i'r rhieni gofnodi am ddarllen eu plant, ac yn gyswllt rhwng y cartref ag athro/athrawes ddosbarth y plentyn.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi yng nghynllun e-lyfrau Saesneg "Bug Club" felly mae'r llyfrau yma ar gael i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4 i ddarllen ar declynau digidol adref.

### **Rhieni**

Disgwylir i rieni roi pob cynhaliaeth i'r plant, a'u hannog i wneud y gwaith gorau posibl. Dylid sicrhau mai gwaith y plant sydd yn cael ei gyflawni ond mae'n bwysig fod rhieni yn eu cefnogi fel bo'r angen. Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os cyfyd unrhyw anhawsterau.

### **Athrawon**

Bydd yr athrawon yn sicrhau bod y gwaith yn amrywiol, o fewn gallu'r plant ond eto'n ymestynnol ac yn ddiddorol.

Mawrth 2017